

Adroddiad Sefydliadol #1

2019/2020

Cyfnod dan sylw: 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019



Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Cynnwys

Uchafbwyntiau

Uchafbwyntiau Gweithredol, Sefydliadol a Gweithgarwch.....3

Effaith Sefydliadol

Y newid hirdymor y byddwn yn ei gynhyrchu i Gymru.....5

Canlyniadau Sefydliadol

Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleientiaid.....5

Allbynnau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant
mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd.....6
Mesurau llwyddiant mewn perthynas â'n Blaenoriaethau
Gweithredu9

Gofynion Cyllido Ychwanegol

Adnewyddu Nant.....14

Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** a'n **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, ynghyd â'n **Nodau Llwyddiant Gweithredol**.
- Mae'r targedau sydd yma ar gyfer **blwyddyn 1** (2019/2020) Cynllun Strategol 3-blynedd 2019-2022. Mae'r targedau hyn yn cynrychioli ein dyheadau, mewn perthynas â'r prosiectau yn ein rhaglen weithredol a'n gweithgarwch presennol, yn ogystal â'n tueddiadau demograffig, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar sicrhau cyllid allanol ychwanegol, ac mae'n bosib y bydd rhai yn cael eu haddasu neu'n dod yn annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol yn effeithio ar rai prosiectau. Am y rhesymau hyn, **rhagamcan o sut bydd llwyddiant yn edrych yw'r targedau hyn, ac mae'n bosib y byddant yn destun adolygiad yn seiliedig ar resymeg**.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn yr adroddiad hwn, ynghyd ag un arall ar lefel prosiect mwy manwl, sy'n canolbwyntio ar gynnydd misol tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Gall y Bwrdd Rheoli wneud cais i weld y ddogfen yn ôl yr angen, ac mae'n bosib y byddant yn dewis gwneud hynny'n achlysurol fel arfer da.

Uchafbwyntiau

Sefydliadol

- Lansiodd [Cynllun Strategol 2019-2022](#) yng Ngŵyl y Gelli ym mis Mai
- Cyflwynwyd papur strategaeth i Lywodraeth Cymru yn trafod gweithio mewn partneriaeth â **Chyngor Llyfrau Cymru**
- Lansiodd [Pecyn Cymorth Cynhwysiant ac Amrywiaeth Economaidd-Gymdeithasol yn y Celfyddydau Weston Jerwood](#) ym Manceinion, sydd yn cynnwys Llenyddiaeth Cymru fel astudiaeth achos
- Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r staff i drafod yr **Adolygiad Sefydliadol**

Gweithgaredd

- Cyhoeddwyd mai **Gruffudd Owen** fyddai Bardd Plant newydd Cymru 2019-21
- Cafodd **20** o awduron hyfforddiant arbennig yn ystod Diwrnod Diwydiant **Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli**
- Cynhaliwyd seremoni **Llyfr y Flwyddyn** yn Aberystwyth gyda gwobr o **£12,000** i'r awduron buddugol
- Cafwyd **21 o geisiadau** ar gyfer swydd Children's Laureate Wales
- Cafwyd **68** o geisiadau ar gyfer y cynllun **Llenyddiaeth er Iechyd a Lles** a rhoddwyd cyllid i **10** o brosiectau llwyddiannus
- Agorodd taith arddangosfa **Cymry Ryfedd a Chyfareddol** yn Galeri Caernarfon, gan ymweld â **6** o safleoedd Cadw yn ystod yr haf
- Lansiodd y cynllun **Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli** gan ddenu ymateb hynod o gadarnhaol gan y sector

Gweithredol

- Rhoddwyd **Strategaeth Codi Arian 2019-2022** ar waith
- Roedd y cais am **Interniaeth Codi Arian** Celfyddydau a Busnes yn llwyddiannus – dechreuodd y lleoliad 10 mis ym mis Hydref
- Cynhaliwyd **archwiliad ariannol**
- Cwblhawyd gwaith **adnewyddu Nant**
- Mae cyfres newydd o **gyfweiliadau â Ffrindiau Beirniadol** wedi dechrau
- Agorwyd **siop ar-lein Llenyddiaeth Cymru**
- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y **Grŵp Cyngori**



Creodd Llenyddiaeth Cymru a Cadw fideo am y **Prosiect Partneriaeth Preswyliaid Ifanc**. Mae'r prosiect wedi bod yn datblygu ers 2015, yn wreiddiol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae bellach yn cynnwys Cadw a Theatr Genedlaethol Cymru:

[Click here to watch the video](#)



Cyhoeddwyd mai **Gruffudd Owen** fyddai Bardd Plant newydd Cymru 2019-21



Taith arddangosfa **Cymru Ryfedd a Chyfareddol**



Clwb Cysgu'r Bardd Plant yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd



Ailbhe Darcy a Manon Steffan Ros yn ennill gwobrau Llyfr y Flwyddyn 2019



Mae Llenyddiaeth Cymru yn noddi awduron y noson perfformio barddoniaeth yng Nghaerdydd, **'Where I'm Coming From'**, i fynd i Wyl y Gelli

Hafan > Amdanom ni > Beth yw llwyddiant inni?

Beth yw llwyddiant inni?

Mae **Ein Cenhadaeth** yn nodi y byddwn yn: ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron ac yn datblygu diwylliant llenyddol Cymru.

Bydd yr ymyrrthau uniongyrchol a'r strategïau a omlawir yn ein **Cynllun Strategol** ar gyfer 2019 – 2022 yn awgyn ar welliannau cymdeithasol, diwyllianol ac economaidd. Byddwn yn dilyn y gwelliannau hyn am dair blynedd gan ddefnyddio dulliau casglu data newydd. Mae ein diben yn glir, ac rydym wedi gosod targedau mesuradwy y byddwn yn eu defnyddio er mwyn monitro cynnydd.

Erbyn 2022, bydd Llenyddiaeth Cymru wedi cyfrannu at y canlynol:

- Rhagor a bobl yng Nghymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol, yn benodol rhai sy'n unioethu â'r nodweddion yr ydym yn eu targedu
- Rhagor a'r rheini sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau cymunedol yn symud ymlaen i elwa o'n mentrau Datblygu Awduron
- Rhagor a gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron
- Rhagor a awduron ifanc (rhwng 16-30 oed) yn ymgymryd â chyfleoedd creadigol
- Rhagor a awduron profiadol yn cymryd rhan mewn prosiectau cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol

Mae'n hybys ers tro fod llenyddiaeth yn lesali i ni. Mae'r buddion a brofir gan bobol sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau yn cynnwys:

- Cwell sgiliau siarad ac ysgrifennu (Cymru sy'n fwy cyfartal)
- Risg is o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefylli salwch meddwl yn well (Cymru iachach)
- Mwy o hunanryddid (Cymru gydaeth)
- Y cyflwr i ddarparu ffordd byrdded, athroniaethau a diwyllianau newydd (Cymru o gymunedau cyflynus)
- Rhagor a gyfleoedd gwaith (Cymru lewyrchus)
- Cwell gallu i ddangos empathi (Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)
- Llai o bobol yn teimlo'n ynysig (Cymru o gymunedau cydlynus)
- Cwell sgiliau amleithog (Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Cymraeg yn fflurau)

Dewislen

Ein Cenhadaeth
Ein Gwerthoedd
Ein Cleientiaid
Beth yw llwyddiant inni?
Cynllun Strategol 2019 – 2022
Bwrdd Rheoli
Ein Tim
Swyddi Gwaig
Cyhoeddiadau

Diweddarwyd gwefan Llenyddiaeth Cymru i adlewyrchu'r Cynllun Strategol

Effaith Sefydliadol a Chanlyniadau

	Targed ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Effaith Sefydliadol	Byddwn ar ein ffordd i rymuso, gwella a goleuo bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at eu llesiant ehangach ac at lesiant cymdeithas, economi a diwylliant Cymru	Mae'r arolwg hydredol dros y tair blynedd wedi'i greu a'i anfon i sampl cynrychioladol o 10 o gleientiaid, sydd wedi'u contractio i'w gwblhau ddwywaith y flwyddyn.	Arolwg Hydredol 2019-22
Canlyniadau Sefydliadol	Bydd ein cleientiaid yn nesáu at gael: ▪ Gwell sgiliau siarad ac ysgrifennu ▪ Mwy o hunanhyder ▪ Rhagor o gyfleoedd gwaith ▪ Llai o bobl yn teimlo'n ynysig ▪ Risg is o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well ▪ Cyfle i ddarganfod bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd ▪ Gwell gallu i ddangos empathi ▪ Gwell sgiliau amlieithog	Bydd canlyniadau ar gyfer y gwaelodlin ar gael yn Adroddiad #2.	

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi cynyddu 0.6 pwynt canran i 8.8% erbyn 2022 , sy'n gyfwerth â 20,700 o bobl yn ychwanegol	Bydd Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau 2019 yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth/Ebrill 2020.	Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau
Mae o leiaf 106,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidfa yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol	Ers 1 Ebrill 2019, mae 31,462 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi ymwneud â gweithgarwch sydd wedi'i drefnu neu wedi'i gefnogi gan Llenyddiaeth Cymru. Bydd y ffigwr hwn yn cynyddu'n sylweddol yn y chwe mis nesaf pan fydd cyfnodau cyflawni prosiectau cyfranogi parhaol (e.e. Llên Pawb, Llên er Lles) yn ailddechrau	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae o leiaf 17% o'n gyfranogwyr creadigol yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed.	Rydym ar hyn o bryd yn cwblhau ein cynlluniau i gyflwyno ein ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn mesur hyn. Bydd y ffurflen yn cael ei rhoi i sampl cynrychioladol o gyfranogwyr yn y gweithdai a'r digwyddiadau rydym yn eu trefnu'n uniongyrchol, yn bartneriaid ynddynt, neu yn eu hwyluso, gydag opsiwn o lenwi'r ffurflen yn ddigidol.	Ein hadroddiadau gwerthuso a cynnydd prosiectau, ac wrth fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Mae o leiaf 17 cyfranogwr creadigol yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol.	Mae 56 o gyfranogwyr creadigol hyd yma wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron. Er enghraifft, trefnwyd i bob un o'r 11 a oedd ar y cwrs i Egin Awduron yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd gael cyfarfod unigol â Phennaeth Tŷ Newydd, a hwnnw'n canolbwyntio ar gyfleoedd datblygu i awduron, gan gynnwys Ysgoloriaethau i Awduron, Cysgodi, Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli, a mwy.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Datblygu Awduron**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Rydym yn darparu o leiaf 140 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol ar gyfer egin awduron yn flynyddol	Hyd yma rydym wedi darparu 50 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i awduron ar ddechrau'u gyrfaedd. Er enghraifft, ym mis Mai 2018, cydweithiodd Llenyddiaeth Cymru a Gŵyl y Gelli er mwyn trefnu cludiant a thocynnau i'r rheini sy'n rhan o'r grŵp perfformio barddoniaeth 'Where I'm Coming From' yng Nghaerdydd. Bu'r awduron hyn sydd ar ddechrau'u gyrfaedd yn mynychu digwyddiadau, yn rhwydweithio, ac yn cyfarfod ag awduron sydd wedi ennill eu plwyf.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae ein gwybodaeth datblygu awduron ar-lein yn cael o leiaf 5,000 o ymweliadau unigryw i'r tudalennau perthnasol yn flynyddol	Mae ein gwybodaeth ar-lein am Ddatblygu Awduron wedi cael ei gweld 10,487 o weithiau (y tudalennau unigryw a welwyd) ac 13,662 o weithiau (cyfanswm y tudalennau a welwyd) yn ystod y cyfnod hwn. Ein dull newydd o alw am geisiadau oedd wedi arwain at weld 27% o'r tudalennau hyn.	Google Analytics
Darperir cefnogaeth barhaus i gyfanswm o 4 awdur ifanc (rhwng 16 a 30 oed) yn flynyddol	Roedd 9 o'r 26 awdur sy'n cael cymorth ariannol ar hyn o bryd drwy Gynllun Ysgoloriaethau a Mentora Awduron 2019 o dan 30 oed pan gyflwynwyd eu ceisiadau. Roedd 1 o'r ysgoloriaethau hyn wedi'u clustnodi'n benodol ar gyfer awdur o dan 25 oed .	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau

Canlyniadau Sefydliadol

Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: Diwylliant Llenyddol Cymru

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Mae o leiaf 15 awdur profiadol ac 17 darn o waith llenyddol yn rhan o brosiectau proffil uchel yn flynyddol	Mae 17 o awduron sydd wedi ennill eu plwyf wedi bod yn rhan o brosiectau uchel eu proffil ers 1 Ebrill 2019. Er enghraifft, enillwyd gwobr y Categori Ffeithiol Greadigol yn seremoni Llyfr y Flwyddyn 2019 gan Oliver Bullough – cyfrannwr rheolaidd i'r <i>Guardian</i> ac awdur Llyfr Busnes y Flwyddyn ac un o gyfrolau gwerthwyr gorau'r <i>Sunday Times</i>, <i>'Moneyland'</i>. Ymddangosodd 18 o weithiau llenyddol ar rhestr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2019 ac enillodd 7 o'r rhain wobrau. Cyflwynwyd cyfanswm o 143 o weithiau llenyddol ar gyfer y wobr i gyd.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Byddwn yn hwyluso ac yn cydweithio ar o leiaf ddwy bartneriaeth a phrosiect cyfnewid y tu allan i Gymru yn flynyddol	Rydym wedi arwain a hwyluso 3 o prosiectau partneriaeth y tu allan i Gymru . Er enghraifft, ym mis Mehefin 2019, bu'r nofelydd o Gymru, Alys Conran, yn cymryd rhan mewn dau ddigwyddiad yn Berlin, gyda chymorth cronfa Cymru Ewrop 2019-2020 British Council Wales.	
Drwy ein hymyriad ni, mae o leiaf ddau gomisiwn y flwyddyn yn cael eu dyfarnu i awduron profiadol gan sefydliadau eraill	Hyd yma, mae 1 awdur sydd wedi ennill ei blwyf wedi cael comisiynau gan sefydliadau eraill drwy ein hymyriad ni – comisiynodd y British Council Rufus Mufasa i berfformio'i gwaith yng Ngŵyl Awduron Rhyngwladol Makassar yn Indonesia ym mis Mehefin 2019.	
Mae o leiaf ddau egin awdur yn ymgysylltu â'n cyfleoedd proffil uchel yn flynyddol	Mae 1 awdures ar ddechrau'i gyrfa wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel hyd yma. Cyrhaeddodd casgliad barddoniaeth Mari Ellis Dunning restr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2019. Mae hi wedi sôn am ei phrofiadau fan hyn .	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Monitro a Gwerthuso**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Mae 70% o'n data o'n prosiectau gweithredol a'n gweithgaredd wedi'i storio yn ein hwb monitro a gwerthuso canolog	Mae'r porth monitro a gwerthuso canolog yn cynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol gan gynnwys adborth gan gleientiaid a manylion demograffig a ffigurau cyffredinol am y bobl sy'n ymwneud â ni. Mae'r Swyddog Datblygu a Chyfathrebu ar hyn o bryd yn mewnbynnu'r data hyn – bydd y staff yn gwneud hyn yn uniongyrchol o ddechrau 2020. Ar hyn o bryd ceir 516 o sylwadau/darnau o adborth o dan y golofn Datblygu Awduron, 193 o dan y golofn Cyfranogi a 53 o dan y golofn Diwylliant Llenyddol Cymru. Ceir 190 o setiau data rhifol. Amcangyfrifir bod tua 20% o'n data wedi'u cofnodi ar y porth monitro a gwerthuso canolog ar hyn o bryd. Ym mis Gorffennaf 2019, prynwyd aelodaeth flynyddol (am bris gostyngol) o Survey Monkey, a fydd yn ein helpu i ganoli mwy o ddata yn ystod y flwyddyn.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a'r arolwg Marchnata a Chyfathrebu blynyddol
Mae 1 Adroddiad Blynyddol yn cyfleu ein heffaith wedi'i gylchredeg	Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi'i gylchredeg i'w gymeradwyo yng nghyfarfod #33 y Bwrdd Rheoli.	
Cynhyrchwyd 12 adroddiad gwerthuso misol a 4 adroddiad gwerthuso chwarterol	Dyma'r cyntaf o'r adroddiadau gwerthuso chwarterol . Rydym wrthi'n gweithio ar yr adroddiadau misol (sy'n canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, at sylw'r Uwch Dîm Rheoli), a hynny fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r system Rheoli Prosiectau. Bydd yr adroddiadau hyn yn dechrau cael eu cyflwyno yn yr hydref. Bydd gwersi sydd i'w dysgu o dan wahanol brosiectau ac ar lefel y sefydliad yn cael eu hychwanegu fel adrannau newydd yn yr adroddiadau misol a chwarterol.	
Caiff 70% o'r prosiectau newydd neu brosiectau parhaol eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae pob un yn cyfeirio at bwyntiau dysgu o'n dadansoddiad	Mae'r Pennaeth Cyfathrebu, y Pennaeth Datblygu a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn gweithio ar broses cyflwyno syniadau ffurfiol am brosiectau. Mae dau brosiect newydd posibl gyda phartneriaid wedi'u cynnig a'u trafod yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm rheoli yn y cyfnod hwn, sef tua 66% o'r prosiectau newydd sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd .	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Adnoddau Dynol**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Mae 40% o'r staff wedi bod i o leiaf dair sesiwn hyfforddi ar draws timau	Mae 1 sesiwn hyfforddi i dimau amrywiol wedi cael ei chynnal, gyda 35% o'r staff yn bresennol (Hyfforddiant Cyllid i'r Uwch Dîm Rheoli). Bwriedir trefnu sesiynau eraill.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Mae o leiaf 2 aelod o staff wedi elwa ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau)	Mae 2 aelod o staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. Mae ein Swyddog Cyllid ar hyn o bryd yn astudio am gymhwyster cyfrifyddu Lefel 4 yr AAT. Mae'r Rheolwr Safle yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ar hyn o bryd ddwy ran o dair y ffordd drwy gymhwyster Marchnata a Chyfathrebu Lefel 4 sy'n cael ei achredu gan CIM.	
Mae lefelau boddhad staff wedi cynyddu o leiaf 7%	Bydd arolwg o les y staff yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r Adolygiad Sefydliadol ac fel rhan o Gynllun Lles y Staff. Bydd hyn yn rhoi data gwaelodlin ar gyfer y targed hwn.	Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o'r Cynllun Llesiant Staff a'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad
Mae o leiaf 5% o'n cyflogeion, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn bobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, mae gan 5% anabledau, ac mae 1 o'r rhain yn uwch aelod o staff ac yn aelod o'r Bwrdd (yn ddibynnol ar fod lleoedd gwag yn codi)	Rydym ar hyn o bryd yn cwblhau ein cynlluniau i gyflwyno ein ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn mesur hyn. Cafodd y Cyfarwyddwyr holiadur Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ym mis Gorffennaf. Bydd y staff yn cael holiadur ym mis Medi 2019. Bydd hyn yn arwain at roi data gwaelodlin ar gyfer y targed hwn.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Byddwn wedi gweithio gydag o leiaf 7 gwirfoddolwr	Bu 1 gwirfoddolwr yn swyddfa Tŷ Newydd hyd yma. Mae disgwyl i ddau intern Erasmus+ arall o Brifysgol Humboldt, yr Almaen, ac un Intern Codi Arian Celfyddydau a Busnes weithio o swyddfa Caerdydd yn yr hydref. Mae cynnig am intern arall gan y Brifysgol Agored wrthi'n cael ei ystyried. Rydym hefyd wedi gweithio gyda 12 o wirfoddolwyr yn Ysbyty Singleton, Abertawe, a 4 gwirfoddolwr drwy Wasanaeth Llyfrgelloedd Conwy fel rhan o'r Prosiect Cyfeillion Darllen.	

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd***

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd wedi'i lansio, ac o leiaf 30 o Ffrindiau newydd yn ymuno	Bydd y gwaith hwn yn dechrau yn yr hydref/gaeaf ar ôl penodi'r Swyddog Marchnata a Chyfathrebu.	
Manylebau gwaith newydd wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith adfer brys sydd ei angen ar y tŷ gwyr	Mae trafodaethau cynnar wedi'u cynnal gyda'r penseiri, a'r rhagolwg yw y bydd y ffi bras ar gyfer y manylebau yn rhan o gostau Gwaith Tŷ Newydd 2019/20.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Adnewyddu 2 ystafell wely i safon uchel	Mae'r gwaith datblygu cynnar wedi'i ddechrau, a'r rhagolwg yw y bydd cyllideb y prosiect yn rhan o gostau Gwaith Tŷ Newydd 2019/20.	
Mae o leiaf 85% o fynychwyr Cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i ddatblygu fel awdur, a dywedodd 90% y byddant yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol	Mae'r data yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi'n flynyddol ar ôl i'r mynychwyr dderbyn ffurflen adborth 6 mis wedi iddynt gwblhau cwrs. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno yn Adroddiad #4.	

*Noder – Mae'r dulliau hyn o Fesur Llwyddiant Busnes Tŷ Newydd yn wahanol i'r rhai a geir yng Nghynllun Strategol 2019-22, sef cyfrannau o ddulliau'r holl sefydliad o Fesur Llwyddiant Codi Arian. Ar ôl cnoi cil, teimlwn fod y targedau newydd a geir uchod yn adlewyrchu'n well natur y gwaith datblygu y bwriedir ei wneud yn y ganolfan.

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: Llywodraethu ac Ymgynghori

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Cynnal arolwg gyda grŵp cynrychioladol o o leiaf 70 unigolyn o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae rhain yn cynrychioli grwpiau rhanddeiliaid phartneriaid strategol.	Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar greu arolwg i randdeiliaid gyda Charles Beckett a Sarah Drummond, aelodau cyswllt y Rhaglen Wytnwch, a bydd yr arolwg hwnnw i'w gynnal yn hydref 2019.	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Cynnal cyfweiliadau neu drafod ein gwaith gyda rhwydwaith gynrychioladol o o leiaf 15 Cyfaill Beirniadol o leiaf unwaith y flwyddyn	Rydym wedi datblygu sgrïpt cyfweld newydd i'n Ffrindiau Beirniadol, sy'n gofyn am eu barn am y Cynllun Strategol a sut y gellir ei roi ar waith. Cynhaliwyd cyfweiliadau â 9 Ffrind Beirniadol ym mis Gorffennaf, gyda mwy ar y gweill ym mis Awst. Bydd adroddiad i grynhoi'r canfyddiadau'n cael ei greu a'i rannu ym mis Medi.	
Cynnull 2 gyfarfod Grŵp Ymgynghori'r Bwrdd Rheoli, 10 cyfarfod Gweithrediadau'r Uwch Dîm Rheoli ac 1 sesiwn Cynllunio Creadigol i'r holl staff yn flynyddol	Cynhaliwyd 1 cyfarfod Grŵp Cynghori ar Raglenni gyda John O'Shea, Christina Thatcher a Cathryn Summerhayes ar 17 Gorffennaf, gan ganolbwyntio ar y strategaethau rhyngwladol a chyfranogi. Bwriedir cynnal cyfarfod cyntaf y Grŵp Cynghori ar Gyfathrebu yn yr hydref. Mae 2 gyfarfod Uwch Dîm Rheoli i ganolbwyntio ar weithrediadau wedi'u cynnal hyd yma, gan edrych ar gyllid a risg. Bwriedir cynnal rhagor ohonynt yn yr hydref. Cynhelir y sesiwn Cynllunio Creadigol nesaf i staff amrywiol ym Mhowys ar 5 Medi.	
Rhannu dadansoddiad o adborth rhanddeiliaid drwy adroddiadau gwerthuso misol a chwarterol, a chyfeirio ato wrth wneud penderfyniadau	Dyma'r cyntaf o'r adroddiadau gwerthuso chwarterol. Rydym wrthi'n gweithio ar yr adroddiadau misol (sy'n canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, at sylw'r Uwch Dîm Rheoli), a hynny fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r system Rheoli Prosiectau. Bydd yr adroddiadau hyn yn dechrau cael eu cyflwyno yn yr hydref. Bydd gwersi sydd i'w dysgu o dan wahanol brosiectau ac ar lefel y sefydliad yn cael eu hychwanegu ar ffurf adrannau newydd yn yr adroddiadau misol a chwarterol. Bydd hyn yn cynnwys adborth gan randdeiliaid.	Cynigion prosiect a chofnodion cyfarfodydd

Canlyniadau Sefydliadol

Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Hwyluso'r Sector**

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Peidio darparu mwy na 10 prosiect yn uniongyrchol bob blwyddyn	Mae Llenyddiaeth Cymru yn cyflawni 10 prosiect cyfredol: Llên Pawb; Hyfforddiant Awduron; Cysgodi Awduron; Sgwadiau 'Sgwennu Tŷ Newydd; Cynllun Nawdd Awduron; Cynllun Mentora; Children's Laureate Wales; Gwobr Llyfr y Flwyddyn; Cyrsiau Ysgrifennu Creadigol Tŷ Newydd; a Bardd Cenedlaethol Cymru. Mae'r holl brosiectau eraill yn cael eu darparu mewn partneriaeth (gyda Llenyddiaeth Cymru yn gyd-bartner) neu ar sail model hwyluso (gyda Llenyddiaeth Cymru yn cefnogi / cyllido / yn cynnal yn unig neu'nartner eilaidd).	Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau
Cefnogi o leiaf 20 prosiect a gaiff eu harwain gan bartneriaid fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd yn flynyddol	Hyd yma rydym wedi cefnogi 35 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd. Er enghraifft ym mis Gorffennaf, bu inni gefnogi a chyd-gynnal 'Breaking New Ground': Taith y DU , adnodd newydd amhrisiadwy sy'n hyrwyddo ac yn dathlu dros 100 o awduron a darlunwyr plant croenliw o Brydain.	
Darparu cyllid a/neu gefnogaeth mewn nawdd i o leiaf 150 o unigolion, grwpiau a sefydliadau yn flynyddol	Hyd yma rydym wedi cwblhau dros 280 awr o waith hwyluso i'r sector, a hynny i 222 o unigolion, grwpiau a sefydliadau . Mae'r ffigur hwn yn cynnwys digwyddiadau Awduron ar Daith a'r rheini a gafodd Ysgoloriaethau Awduron yn 2019.	
Rydym wedi ysgogi o leiaf 4 prosiect llenyddol cynaliadwy hunan-gynhaliol mewn meysydd lle mae angen	Mae 2 brosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y trefnwyr eu hunain , wedi'u cyflwyno mewn ardaloedd lle mae angen. Er enghraifft, o ganlyniad i'w hymwneud â'r prosiect Llên Pawb, mae Gwasanaethau Llyfrgelloedd Gwynedd a Môn yn trefnu gweithdai ysgrifennu creadigol yn yr hydref.	

Gwybodaeth Ychwanegol

Diweddariad ar Adnewyddu Nant

Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2020	Cynnydd Presennol 1 Ebrill – 31 Gorffennaf 2019	Dull casglu data
Gwaith adnewyddu Bwthyn Nant wedi'i gwblhau ac ar agor i gwsmeriaid erbyn mis Awst 2019	Cwblhawyd gwaith ailddatblygu Nant ar 28 Mehefin 2019 . Bu gwesteion yn talu am aros yno ers 6 Gorffennaf ac mae'n llawn tan fis Medi – cyfuniad o logi preifat (pobl yn trefnu gwyliau haf ar y funud olaf), mwy o gapasiti ar gyrsiau, ac encilion i awduron. Mae'r ymgyrch gyfathrebu yn mynd rhagddi.	Adroddiadau diweddaru Nant a'n cyfrifon chwarterol



Tŷ Newydd | Ein Cysiau | Encil Awduron Nant | Gwneud Cwahanfaeth | Blog | Cysylltu | Llenyddiaeth Cymru

LLun: Kristina Barholzer

Cwestiynau Cyffredin

Darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin isod os gwelwch yn dda.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, croeso i chi gysylltu â ni ar 01766 522 811 neu e-bostio tynewydd@llynyddiaethcymru.org

Cwestiynau Cyffredin

Dewislen

[Cwestiynau Cyffredin](#)